



Ein cyf/Our ref WQ87992

Rhys ab Owen AS
MS for South Wales Central
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN
Rhys.abOwen@senedd.wales

25 April 2023

Dear Rhys,

Diolch am eich cwestiwn diweddar ynglŷn â mesur yr effaith ar yr iaith Gymraeg wrth benderfynu lleoliadau ysgolion sero net.

Mae Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn darparu buddsoddiad cyfalaf sylweddol i gefnogi awdurdodau lleol i ateb y galw am ddysgwyr o fewn eu hardaloedd. Ers mis Ionawr 2022, mae'n ofynnol i bob ysgol newydd sy'n cael ei darparu o dan y Rhaglen fod yn garbon sero net ar waith, ynghyd â gostyngiad o 20% mewn carbon a ymgorfforir yn ystod y gwaith adeiladu.

Ein huchelgais yw bod pob dysgwr yng Nghymru yn cael cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg lle bynnag, ac ym mha bynnag ysgol y maent yn cael eu haddysgu. Ein dull o gyflawni hyn yw ehangu addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach a darparu mwy o gefnogaeth i ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ddod yn siaradwyr newydd hyderus hefyd.

Ddydd Gwener 24 Mawrth, cyhoeddais y tair ysgol gynradd sero net newydd fel rhan o Her Ysgolion Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Roeddwn yn falch iawn o gyhoeddi bod dau o'r tri phrosiect yn ysgolion cynradd Cymraeg gan ddarparu buddsoddiad o hyd at £30 miliwn i gyflawni adeiladau carbon sero-net o'r radd flaenaf a chefnogi eu cymunedau lleol. Bydd y trydydd prosiect yn gweld hyd at £15 miliwn yn cael ei fuddsoddi i ddarparu Ysgol Gynradd newydd Glyn-coch yn Rhondda Cynon Taf.

Gofynnais i swyddogion weithio mewn partneriaeth â swyddogion o awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf i sicrhau bod y prosiect arfaethedig yng Nglyn-coch yn cefnogi eu CSCA. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, mae'r awdurdod wedi ymrwymo i gynnal adolygiad llawn o gapasiti arfaethedig yr ysgol newydd i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y gymuned leol a'i thargedau CSCA. Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: capasiti, darpariaeth gofal plant a chategori ieithyddol yr ysgol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i sefydlu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar wahân ar safle'r ysgol. Maent hefyd wedi ymrwymo i leihau capasiti cyfrwng Saesneg arfaethedig yr ysgol i sicrhau bod hyn yn adlewyrchu'r galw gwirioneddol a rhagamcanol o fewn y dalgylch.

Yn dilyn lleihau'r capasiti cyfrwng Saesneg arfaethedig, rhoddir ystyriaeth i'r defnydd o'r ardal dros ben i ddarparu ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel rhan o newid i'r categori ieithyddol yn y dyfodol.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r prosiect er mwyn cytuno ar y materion hyn cyn ystyried yr achos busnes llawn.

Yn gywir



Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Minister for Education and Welsh Language